



Gwasgaru Hadau

- Bioamrywiaeth



Trosolwg

Mae'r gêm hwyliog yma'n gyflwyniad gwych i wasgaru hadau a deall sut mae planhigion wedi esblygu i ddibynnu ar anifeiliaid i atgennedlu. Bydd y gweithgaredd yma hefyd yn galluogi disgyblion i archwilio tiroedd eu hysgol ac ymarfer dychwelyd i grŵp pan mae angen.

Adnoddau

- Resins (cofiwch fod resins yn wenwynig i gŵn, felly dewiswch adnodd arall os yw pobl yn gallu mynd â'u cŵn am dro ar eich tir chi)
- Gofod agored gyda ffiniau penodol

Gweithgaredd

- Eglurwch eich bod yn mynd i ddychmygu eich bod yn wiwerod yn paratoi ar gyfer y gaeaf.
- Rhowch bump resin i bob disgybl sy'n cynrychioli mes.
- Dywedwch wrth y plant bod ganddyn nhw bum munud i fynd i guddio'u mes (fel y bydd gwiwerod yn ei wneud i'w storio nhw ar gyfer y gaeaf). Bydd cyfle iddyn nhw ddewis ydyn nhw am eu rhoi nhw i gyd mewn un lle neu mewn lleoliadau gwahanol.
- Galwch y plant yn ôl i'r grŵp a thrafod pam mae angen i anifeiliaid wneud hyn a beth allai ddigwydd i'r mes dros yr amser pan maen nhw wedi cael eu cuddio.
- Heriwch y plant i fynd i nôl eu mes ar gyfer y gaeaf (efallai y bydd rhai gwiwerod drwg yn dod o hyd i fes y gwiwerod eraill yn lle eu rhai nhw!).
- Adolygwch pwy sydd wedi goroesi'r gaeaf a thrafod beth fyddai'n digwydd i fes heb eu nôl h.y. mae'r gwiwerod wedi hadu coed derw newydd.

Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwyr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Deall gwahanol ddulliau o wasgaru hadau
- Archwilio ymddygiadau gaeafgysgu anifeiliaid
- Deall y rhyng-ddibyniaeth rhwng planhigion ac anifeiliaid

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio mewn cydweithrediad â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

Maes Pwnc	Testun	Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach
Gwyddoniaeth	Gwasgaru hadau	Trafod dulliau eraill o wasgaru e.e. treuliad anifeiliaid, glynu at ffwr anifeiliaid, gwasgaru ar y gwynt
	Cadwyni bwyd	Archwilio ysglyfaethwyr/heriau y gall gwiwerod eu hwynebu
Mathemateg	Rhif	Pwysleisio cyfrif y resins, faint sydd ar ôl ac ati
	Ystadegau	Casglu data a chreu siartiau, nifer cyfartalog a ddarganfuwyd, canran a adawyd ar ôl ac ati
Llythrennedd ac Iaith	Ysgrifennu llythyr	Ysgrifennwch o safbwynt y wiwer neu'r goeden ynglŷn â sut maen nhw wedi helpu/i ddiolch am wasgaru
	Ysgrifennu heb fod yn ffuglen	Ffeil ffeithiau am wahanol fathau o wasgaru hadau

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

